# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

## GWYBODAETH I ARTISTIAID A GWEITHWYR CYMORTH

Nod Celfyddydau Ymdrochol yw chwalu rhwystrau i artistiaid o bob cefndir greu ac ymgysylltu â thechnolegau ymdrochol. Rydyn ni am ddathlu gwahanol straeon a phrofiadau a herio ffyrdd traddodiadol o feddwl, creu a gweithio.

Mae'r ddogfen yma'n egluro sut gallwn gefnogi artistiaid sy'n wynebu rhwystrau wrth wneud cais - yn benodol drwy ariannu gweithwyr cymorth i helpu gyda'r broses ymgeisio.

Mae wedi'i fwriadu ar gyfer:

- **Artistiaid** sy'n ystyried gweithio gyda gweithiwr cymorth
- **Gweithwyr cymorth** sy'n helpu rhywun i wneud cais

Bydd angen i artistiaid drefnu eu gweithwyr cymorth eu hunain - all Celfyddydau Ymdrochol ddim darparu na phenodi gweithwyr cymorth.

Os ydych chi'n ansicr beth mae Cymorth Hygyrchedd yn ei gynnwys, neu os oes gennych chi gwestiynau am unrhyw beth yn y ddogfen yma, e-bostiwch ni neu ffoniwch/anfonwch neges destun i 07926 699909.

*Dim ond yn rhan-amser mae staff yn gallu ateb ein ffôn, felly os nad ydyn ni ar gael pan fyddwch yn ffonio gallwch adael neges llais i ni a byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosib.*

### PARATOI AR GYFER Y BROSES YMGEISIO

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Darllenwch **Ganllawiau Celfyddydau Ymdrochol** yn ofalus i ddeall y broses ariannu a gwneud cais.

Mae'r Canllawiau ymgeisio ar gael i'w lawrlwytho ynyn y fformatau canlynol:

- print bras
- hawdd ei ddarllen
- sain
- Iaith Arwyddion Prydain

**Ffurflenni Cais**

Gallwch wneud cais i gronfa Celfyddydau Ymdrochol gan ddefnyddio ein porth ymgeisio ar-lein. A gallwch wneud cais drwy **sain, fideo neu destun**, ac yn **Gymraeg**, yn **Saesneg**, neu yn **Iaith Arwyddion Prydain**.

Gallwch lawrlwytho rhagolwg o'r ffurflenni cais i weld y cwestiynau a sut maen nhw wedi'u trefnu. Gall hyn eich helpu i baratoi eich atebion a gweithio allan unrhyw gymorth y gallech fod ei angen cyn gwneud cais ar y porth ymgeisio.

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 2pm, dydd Llun 29 Medi 2025.**

Mae ein gwefan a'n porth ymgeisio yn gydnaws â darllenwyr sgrin.

## CYMORTH I'CH HELPU I WNEUD CAIS

Mewn rhai achosion, gallwn ni helpu gyda chostau'r cymorth hygyrchedd sydd ei angen arnoch i gwblhau cais. Gallai hyn gynnwys:

- gweithiwr cymorth
- Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain neu gymerwr nodiadau

Darllenwch ein dogfen Gwybodaeth i Artistiaid a Chyd-weithwyr Cymorth cyn gwneud cais am gefnogaeth.

**Llenwch y ffurflen yma i ofyn am gefnogaeth gyda chostau hygyrchedd.**
Byddwn yn anelu at ymateb a chadarnhau eich cais o fewn pythefnos.

Os oes angen y ffurflen arnoch mewn fformat arall, e-bostiwch ni neu ffoniwch/anfonwch neges destun aton ni i 07926 699909.

**Dyddiad cau i ofyn am gymorth hygyrchedd: 5pm, Dydd Llun 1 Medi 2025**
Er mwyn rhoi digon o amser i ni drefnu'r cymorth sydd ei angen arnoch cyn y dyddiad cau ar gyfer y cylch ariannu (29 Medi 2025).

### Faint o amser cymorth alla i ofyn amdano?

Rydyn ni'n deall bod gofynion hygyrchedd yn gallu amrywio, isod mae canllaw yn seiliedig ar y cymorth oedd ei angen ar bobl y llynedd:

- **Archwilio:** Hyd at 8 awr o gymorth
- **Arbrofi:** 8-16 awr
- **Estyn:** Hyd at 8 awr i lenwi'r ffurflen Mynegi Diddordeb.
  Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, gallwch ofyn am fwy o gymorth i baratoi ar gyfer eich cyfweliad.

Mae ganddon ni gyllideb gyfyngedig ar gyfer cymorth hygyrchedd. Gofynnwch am gymorth cyn gynted â phosib.

## CAEL EICH TALU AM WAITH CYMORTH HYGYRCHEDD

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL

Ar ôl cyflwyno'r cais, dylai gweithwyr cymorth anfon anfonebau i info@immersivearts.uk.

Rhaid i anfonebau:

- fod wedi'u cyfeirio at Watershed Arts Trust Ltd, 1 Canons Road, Bristol, BS1 5TX.
- cynnwys rhif anfoneb a'r disgrifiad:
  **'Access support for Immersive Arts application for [Enw'r Artist]'**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill am gymorth ar gyfer costau hygyrchedd, anfonwch e-bost aton ni neu ffoniwch / anfonwch neges destun i 07926699909.

## ADBORTH

Rydyn ni'n gwerthfawrogi adborth er mwyn helpu i wella ein prosesau. Os oes gennych awgrymiadau neu os hoffech rannu eich profiad, llenwch y ffurflen adborth fer yma.